# UNED 21

## Dewch yma!

## Geirfa

**padell(au) ffrio** – *frying pan(s)*

**powlen(ni)** – *bowl(s)*

**rysáit** – *recipe*

**cymysgu** – *to mix*

**ffrio** – *to fry*

**tylino** – *to knead*

**ychwanegu** – *to add*

**hyd at** – *up to*

**llond llwy de / llond llwy fwrdd** – *teaspoonful / tablespoonful*

**blawd** – *flour*

**burum** – *yeast*

**cwpanaid (cwpaneidiau)** – *cupful(s)*

**lliain (llieiniau)** – *towel(s)*

**olew olewydd** – *olive oil*

**siâp (siapiau)** – *shapes*

**sŵn (synau)** – *noise(s)*

**toes** – *dough*

**peryglus** – *dangerous*

**syml** – *simple*

## Syniad da!



### Coginio yn Gymraeg



Coginio *is a great activity for children of all ages – despite the mess! As well as developing your child's life skills,* coginio *develops their understanding of nutrition and healthy eating, and may even encourage fussy eaters to try* bwyd newydd*!*

*The next time you cook with your child, why not do so* yn Gymraeg? *Use the commands learnt in* Uned 21 *to help and encourage your little one. You could also use a* llyfr coginio Cymraeg *for inspiration. Many* llyfrau coginio Cymraeg *have been published in recent years to cater for all tastes and abilities. Why not have a look in your local* siop Gymraeg? *Alternatively, visit*: http://www.gwales.com/search_advanced/?sf_new_search=2&sf_category=WBD105&tsid=5

# Cân: Golchi dwylo

*Before doing any coginio, it's important to wash our hands of course. This song by* Ffalala *shows us how it's done!*

## Golchi dwylo

| | |
|---|---|
| Dyma'r ffordd i olchi dwylo | *This is how to wash hands* |
| A'u cadw nhw yn lân | *And keep them clean* |
| Dyma'r ffordd i sychu dwylo | *This is how to dry hands* |

*Watch the video here:*

https://www.youtube.com/watch?v=JWgPwDCtbjQ

Ffalala *have lots of other great songs for little ones on their YouTube channel. Why not subscribe today?*



# Sgwrs

**Rhiant:** Iwan, paid â chwarae gyda hwnna.
**Iwan:** Pam?
**Rhiant:** Mae e'n beryglus.
**Iwan:** Iawn.
**Rhiant:** Iwan, paid â bwyta hwnna.
**Iwan:** Pam?
**Rhiant:** Mae e'n ych a fi... ac Iwan?
**Iwan:** Ie?
**Rhiant:** Paid ag agor y drws.
**Iwan:** Dw i eisiau mynd mas.
**Rhiant:** Na, Iwan. Mae hi'n rhy oer.... o, Iwan?
**Iwan:** Ie?
**Rhiant:** Paid â gwneud sŵn.
**Iwan:** Pam?
**Rhiant:** Mae'r babi'n cysgu... Iwan?
**Iwan:** Beth nawr?
**Rhiant:** Wyt ti eisiau bisged?
**Iwan:** Ydw, plîs.
**Rhiant:** Dere 'ma, cariad. Rwyt ti'n fachgen da.

# Ymarfer

*Gyda'ch partner, take turns to ask the questions and respond.*
*After some practice, try to answer without reading the responses.*

| | |
|---|---|
| Gaf i ddiod? | Iawn, cer i'r gegin. |
| Gaf i gwtsh? | Wrth gwrs, dere 'ma. |
| Gaf i wylio'r teledu? | Iawn, cer i'r lolfa. |
| Gaf i arian poced? | Gwna dy waith cartref! |
| Gaf i frecwast? | Coda o'r gwely! |





# Rysáit

### Bara fflat ffantastig Lisa Fearne

Dyma rysáit syml i chi a'r plant.



- 3 cwpanaid o flawd
- 2 llond llwy fwrdd o olew olewydd
- 300ml-400ml o ddŵr
- 1 llond llwy de o halen
- 1 llond llwy de o furum sych

- Cymysgwch y blawd, y burum a'r halen mewn powlen fawr. Ychwanegwch ddigon o ddŵr i wneud toes meddal iawn. Tylinwch y toes am tua 5 munud. Wedyn, rhowch y toes mewn powlen. Rhowch liain sychu llestri dros y bowlen.
- Rhowch y toes mewn lle cynnes i godi am hyd at awr. Wedyn, gwnewch siapiau bach fflat gyda'r toes. Ffriwch nhw mewn padell ffrio am tua 4 munud bob ochr.

Mae'r rysáit yma yn y llyfr coginio Cymraeg a Saesneg *Dathlu / Celebrate* gan Lisa Fearn  (Gwasg Gomer 2018).

ⓗ © Diolch Gwasg Gomer *for permission to use and adapt this recipe.*

# UNED 22

## Yn y gwaith

## Geirfa

**gwisg ysgol** – *school uniform*

**pêl-fasged** – *basketball*

**sgarff(iau)** – *scarf (scarves)*

**gwobrwyo** – *to award, to give a prize.*

**achos da** – *good cause*

**Plant Mewn Angen** – *Children in Need*

**crys** – *shirt*

**crys chwys** – *sweatshirt*

**crys polo** – *polo shirt*

**trowsus(au)** – *trousers*

## Syniad da!



### Siart Gwobrwyo Cymraeg

*Many parents use some kind of reward system for good behaviour with their children. Now that you know a lot of* Cymraeg, dych chi'n gallu gwneud siart gwobrwyo (*reward chart*) Cymraeg. Dyma syniadau i chi:

| ★ | Tacluso fy ystafell wely | Bwyta bwyd newydd | Gwneud fy ngwaith cartref | Helpu yn y tŷ | Gwisgo heb help |
|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun | | | | | |
| Dydd Mawrth | | | | | |
| Dydd Mercher | | | | | |
| Dydd Iau | | | | | |
| Dydd Gwener | | | | | |
| Dydd Sadwrn | | | | | |
| Dydd Sul | | | | | |

# Cân: Pawb i Wisgo (*Everyone Wear*)

*This song is sung to the tune of* ***Here We Go Round The Mulberry Bush***

Pawb i wisgo cot a het,
Cot a het, cot a het;
Pawb i wisgo cot a het,
Mae hi'n oer!

Pawb i wisgo sgidiau glaw,
Sgidiau glaw, sgidiau glaw;
Pawb i wisgo sgidiau glaw,
Mae hi'n wlyb!

Pawb i wisgo sbectol haul,
Sbectol haul, sbectol haul;
Pawb i wisgo sbectol haul,
Mae hi'n heulog!

Pawb i wisgo cot a sgarff,
Cot a sgarff, cot a sgarff;
Pawb i wisgo cot a sgarff,
Mae hi'n wyntog!



# Ymarfer



## Gyda'ch partner

| | |
|---|---|
| Gwisga dy drowsus. | Dw i'n gwisgo fy nhrowsus. |
| Gwisga dy grys. | Dw i'n gwisgo fy nghrys. |
| Gwisga dy got. | Dw i'n gwisgo fy nghot. |
| Gwisga dy fenig. | Dw i'n gwisgo fy menig. |
| Gwisga dy fag. | Dw i'n gwisgo fy mag. |

Iawn – bant â ni!

# Sgwrs – Plant Mewn Angen

**Plentyn:** Dad, mae diwrnod Plant Mewn Angen fory. Gaf i arian?

**Tad:** Cei, cariad. Faint wyt ti eisiau?

**Plentyn:** Wel, 'dyn ni ddim yn gwisgo gwisg ysgol fory felly 'dyn ni'n talu punt i'r athrawon.

**Tad:** Iawn.

**Plentyn:** Hefyd, bydd cacennau a bisgedi Pudsey ar werth. Felly, gaf i bum punt?

**Tad:** Cei siŵr. Mae'n achos da. Ond...

**Plentyn:** Ond beth?

**Tad:** Ond, dw i'n mynd i roi deg punt i ti achos dw i eisiau cacennau a bisgedi hefyd!

**Plentyn:** Grêt! Diolch, Dad.













## Dydd Sadwrn Aled

*Look at the pictures above and answer the questions in words.*

Faint o'r gloch mae Aled yn dihuno?

Faint o'r gloch mae Aled yn chwarae pêl-fasged?

Faint o'r gloch mae Aled yn bwyta cinio?

Faint o'r gloch mae Aled yn gwylio ffilm?

## Siaradwch gyda'ch partner

- Faint yw oed dy blentyn di / dy blant di?
- Ble mae'r plant yn mynd i'r ysgol?
- Pwy sy'n dysgu'r plant?
- Oes anifail anwes gyda chi?
- Ble byddwch chi'n mynd am dro dros y penwythnos?
- Pwy sy'n coginio yn eich tŷ chi?
- Ydy'r plant yn cysgu'n dda?
- Faint o'r gloch codaist ti y bore 'ma?
- Sut roedd y tywydd ddoe?
- Beth fyddi di'n wneud heno?
- Dych chi'n hoffi chwarae gemau bwrdd?
- Beth mae'r plant yn hoffi ar y teledu?

## Prynu gwisg ysgol

**Ysgrifennwch yr atebion mewn geiriau.**










Faint yw'r trowsus? ______

Faint yw'r crys chwys? ______

Faint yw'r sanau? ______

Faint yw'r crys polo? ______

Faint yw'r wisg ysgol i gyd?

......